# PWYLLGOR CRAFFU BYW'N IACH A GOFAL CYMDEITHASOL

Hysbysiad o Benderfyniad – Cyfarfod o Bell, 7 Tachwedd, 2023.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Yr Cynghorydd N.C. Thomas (Is-Gadeirydd yn y Gadair); Cynghorwyr G. Ball, C.A. Cave, M. Cowpe, R. Fisher, E.J. Goodjohn a J. Lynch-Wilson.

Hefyd yn bresennol: G. John (Aelod Cabinet dros Hamdden, Chwaraeon a Lles), Dr. I.J. Johnson ac E. Williams (Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol ac Iechyd).

EITEM AGENDA 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd y rhain gan Gynghorwyr J.E. Charles (Cadeirydd), I. Buckley, A.M. Collins, J.M. Norman a C. Stallard.

EITEM AGENDA 2. COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Hydref, 2023 fel cofnod cywir.

EITEM AGENDA 3. DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

EITEM AGENDA 4. ADRODDIAD BLYNYDDOL CYDWEITHREDOL MABWYSIADU RHANBARTHOL Y FRO, Y CYMOEDD A CHAERDYDD (CGC) –

ARGYMHELLWYD -

(1) Nodi Adroddiad Blynyddol Cydweithredol Mabwysiadu'r Fro, y Cymoedd a Chaerdydd 2022-23.

(2) BOD y Pwyllgor yn parhau i dderbyn adroddiadau blynyddol.

Rhesymau dros yr argymhellion

(1) Ystyried cynnwys yr adroddiad ar waith y Gydweithrediaeth a gyflawnwyd hyd yma ac archwilio'r swyddogaeth statudol allweddol.

(2) Sicrhau bod y Pwyllgor yn craffu'n fanwl ar y gwasanaeth rhanbarthol yn rheolaidd yn unol â gofynion y Cytundeb Cyfreithiol sy'n sail i'r Gydweithrediaeth.

EITEM AGENDA 5. DIWEDDARIAD GWASANAETHAU TELEOFAL (CGC) -

ARGYMHELLWYD -

(1) Nodi gwaith a datblygiadau'r gwasanaeth Teleofal i'r dyfodol.

(2) BOD y Pwyllgor yn derbyn diweddariadau blynyddol ar waith y Gwasanaeth Teleofal a gwaith partneriaeth arall.

(3) Y dylid nodi'r newidiadau a'r datblygiadau a gynlluniwyd ar gyfer y gwasanaeth, fel y nodir ym mharagraff 2.3 o'r adroddiad.

<u>Rhesymau dros yr argymhellion</u>

(1) Ystyried cynnwys yr adroddiad ar heriau, cyfleoedd a chyfeiriad strategol Gwasanaeth Teleofal Cyngor Bro Morgannwg.

(2) Hysbysu'r Aelodau o waith y Gwasanaeth Teleofal a datblygiadau cysylltiedig.

(3) Sicrhau bod aelodau Sgriwtini yn cael y cyfle i adolygu a hysbysu'r datblygiadau arfaethedig/dyfodol ar gyfer y gwasanaeth.